
# Stondinau 2025:
# Pecyn gwybodaeth

EISTEDDFOD
Wrecsam
2–9 Awst 2025











- **Dyddiad: 2-9 Awst (stondinau i agor am 10:00 ddydd Sadwrn 2 Awst)**
- **Lleoliad: Wrecsam**
- **Dyddiad agor ceisiadau: 12:00 (hanner dydd) 3 Mawrth 2025**

Rhaid i chi arwyddo eich bod chi'n derbyn ein telerau ac amodau cyn i ni dderbyn unrhyw gais.

## Maes Eisteddfod 2025

Mae'r Maes eleni wedi'i leoli ar gyrion dinas Wrecsam, ar dir amaethyddol braf a gwastad.

Bydd y stondinau canlynol ar gael i'w harchebu dros system Ticketsolve (drwy ddolen o wefan yr Eisteddfod, www.eisteddfod.cymru) ddydd Llun 3 Mawrth:

- Stondin 3m x 6m (stondin sengl)
- Stondin 3m x 3m (stondin fach)
- Cwt pren sengl 3m x 2.5m
- Gofod yn yr Hwb Trydydd Sector

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y system yn ofalus. Does dim cyfyngiad ar nifer stondinau y gallwch eu harchebu eleni. Archebwch unrhyw drydan, byrddau a chadeiriau wrth gwblhau'r ffurflen gais. Bydd modd talu am eich stondin mewn un taliad neu dros gyfnod o dri mis. Mae'n rhaid cwblhau eich taliad am stondin cyn cael mynediad i'r Maes.

## Sut stondin sy'n gweithio i chi?

- Stondin 3m x3m: Stondin llai - perffaith ar gyfer busnes neu gwmni bach sy'n dod i'r Eisteddfod am y tro cyntaf. Bydd y rhain wedi'u gosod mewn rhesi mewn ardal ganolog o'r Maes. Mesuriadau: blaen – 3m | dyfnder – 3m | uchder – 2.4m o'r ddaear (nid y llawr) i ben yr uned a 3.5m i'r brig yn y canol;

- Stondin 3m x 6m:Uned arferol ar y Maes. Byddwn yn gosod rhesi o stondinau yn ôl yr arfer mewn ardal ganolog o'r Maes. Mesuriadau: blaen – 3m | dyfnder – 6m | uchder – 2.4m o'r ddaear (nid y llawr) I ben yr uned a 3.5m i'r brig yn y canol;

- Cwt pren 3m x 2.5m: Cwt hunangynhaliol, sy'n ddelfrydol ar gyfer grwp neu gwmni bach sy'n chwilio am bresenoldeb deniadol a gwahanol ar y Maes. Bydd y cytiau wedi'u gosod o amgylch y Maes. Mae'r canopi'n agor i fyny a'r drws blaen yn plygu'n ôl. Ceir un allwedd i bob cwt i'w gloi gyda'r nos, gyda'r allwedd sbâr yn cael ei gadw'n ganolog;

- Hwb Trydydd Sector: Strwythur penodol ar gyfer cymdeithasau, cyrff a mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector yn unig. Cyfle i rannu gofod gyda chyrff tebyg mewn ardal amlwg rhwng ein dwy babell Cymdeithasau ar y Maes. Mesuriadau: 2m x 2m;

- Pentref Celf: Ardal benodol yn agos at Y Lle Celf ar gyfer crefftwyr ac artistiaid. Dylech nodi eich bod am gael eich lleoli yn y Pentref Celf wrth wneud cais am stondin. Cytiau pren a stondinau 3m x 6m ar gael yn unig yn yr ardal hon;

- Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cytiau pren yn unig yn ardal y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r rhain ar gael wrth wneud cais drwy wefan yr Eisteddfod, nid drwy Ticketsolve ar 3 Mawrth.

Rydym hefyd yn cynnig strwythurau mwy ac amgen er mwyn i'ch presenoldeb chi sefyll allan ar y Maes. Cysylltwch am sgwrs.

## Gosod eich stondin

Bydd modd gosod eich stondin ar y Maes yn ystod y cyfnodau canlynol:

- Dydd Mercher 30 Gorffennaf: 08:00 –18:00
- Dydd Iau 31 Gorffennaf: 08:00 –18:00
- Dydd Gwener 1 Awst: 08:00 –14:00

Yn dilyn llwyddiant cyflwyno'r system yn Rhondda Cynon Taf y llynedd, byddwn yn gweithredu system slot amser gosod ymlaen llaw, er mwyn ein galluogi i reoli nifer y cerbydau sy'n cyrraedd y Maes ar yr un pryd.

Byddwn hefyd yn gosod cyfyngder amser o dair awr i gerbydau ar y Maes ar gyfer dadlwytho, a bydd angen gwagio unrhyw gerbyd o fewn y slot a'i symud i'r maes parcio stondinwyr ar ddiwedd eich slot.

Bydd rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu dod â cherbyd sy'n fwy na fan gyffredin gysylltu â ni ymlaen llaw i drefnu amser gosod. Byddwn yn cysylltu â phawb gyda manylion archebu slot mewn da bryd cyn diwedd Gorffennaf.

## Cerbydau ar y Maes

Bydd modd dod â char neu fan ar y Maes rhwng 06:00 –07:30 yn y bore yn unig er mwyn llwytho a dadlwytho. Byddwch angen y tocyn cerbyd cywir er mwyn gwneud hyn a bydd angen dilyn canllawiau gyrru ar y Maes. Ni fyddwn yn caniatau unrhyw gerbydau ar y Maes ar unrhyw adeg ar wahan i'r cyfnodau a nodir uchod.

## Tynnu i lawr

Bydd modd tynnu eich stondin i lawr yn ystod y cyfnodau canlynol:

- Dydd Sadwrn 9 Awst: 18:00 –21:00
- Dydd Sul 10 Awst: 08:00 –18:00

Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am hyn yn agosach at yr amser.